



**Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron Mis Ebrill / Tregaron Town Council April Meeting**  
**Nos Lun / Monday 14.04.2025**

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

**COFNODION CYFARFOD MIS EBRILL / APRIL MEETING MINUTES**

1.	<p><b>CROESO / WELCOME</b> Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. <i>The Chair welcomed everyone to the meeting.</i></p> <p>PRESENNOL / <i>PRESENT</i>: Cyng/Cllr Catherine Hughes (Cadeirydd / <i>Chair</i>), Arwel Jones, Rhian Jones, Gwion James, Rhian Hughes, Dafydd Richards, Sian Jones, Dewi Evans &amp; Jo-Alice Davies.</p> <p>Clerc / <i>Clerk</i> – Fflur Lawlor</p> <p>Cyng. Ifan Davies, Aelod Lleol, Cyngor Sir Ceredigion / <i>Cllr. Ifan Davies, Local Member, Ceredigion County Council</i></p>	
2.	<p><b>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES</b> Cyng / Cllr. Meirian Morgan &amp; Owain Pugh</p>	
3.	<p><b>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS</b> Estynnwyd cydymdeimlad â'r Cyng. Dafydd Richards &amp; Mr Noel Jones yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Henry Richard ar eu llwyddiant diweddar yn Eisteddfod yr Urdd Ceredigion a dymunwyd pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Mai. Diolchwyd i bawb a fynychodd y sesiwn casglu sbwriel yn ddiweddar. Hefyd i'r Frigâd Dàn leol yn Nhregaron am eu gwaith dros yr wythnosau blaenorol gyda'r holl danau gwyllt.</p> <p><i>Condolences were extended to Cllr. Dafydd Richards &amp; Mr Noel Jones in their recent bereavement.</i> <i>The Chair congratulated Ysgol Henry Richard on their recent success in Ceredigion Urdd Eisteddfod and wished them luck at the National Eisteddfod in May.</i> <i>Thanks was extended to all that attended the litter pick and to the local Fire Brigade in Tregaron for all their work over the previous weeks due to the wildfires.</i></p>	
4.	<p><b>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT</b> Ni allai PCSO John Evans fynychu'r cyfarfod a darllenodd y Clerc e-bost a anfonwyd gyda gwybodaeth. <i>PCSO John Evans could not attend the meeting the Clerk read out an email sent with information.</i></p>	

5.	<p><b>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</b></p> <p>16.3 – Ysybyty Bronglais Hospital – Cyng Rhian Hughes yn datgan diddordeb / <i>Cllr Rhian Hughes declaring an interest.</i></p> <p>16.9 – Tregaroc Cyng Rhian Jones a’r Clerc yn datgan diddordeb / <i>Cllr Rhian Jones &amp; the Clerk declaring an interest.</i></p>	
6.	<p><b>CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 14/04/2025</b></p> <p>O ran cywirdeb, roedd y Cyng Rhian Hughes yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir.</p> <p><i>For accuracy, Cllr Rhian Hughes was present at the last meeting. It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Arwel Jones Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Dafydd Richards</p>	
7.	<p><b>MATERION YN CODI O’R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 18.1 – Bydd M.Gower mewn cysylltiad pan bydd y blwch wedi cyrraedd / <i>M.Gower will be in contact when the box has arrived.</i></li> </ul>	
8.	<p><b>CYNGOR SIR CERDIGION COUNTY COUNCIL</b></p> <p>a. Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC –</i> Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / <i>Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 17/03/25 - Cronfa grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau Llywodraeth Cymru ar gyfer Tlodi Plant / <i>Welsh Government Child Poverty Innovation and Supporting Communities grant fund</i></li> <li>• 18/03/25 - Gwahoddiad / <i>Invitation</i></li> <li>• 27/03/25 - Bwletin Mis Mawrth 2025 Cynnal y Cardi 2025 <i>March Bulletin</i></li> <li>• 28/03/25 - Bwletin Costau Byw Mawrth 2025   <i>Cost of Living Bulletin March 2025</i></li> <li>• 08/04/25 - Praesept 2025-26 <i>Precept</i></li> </ul> <p>b. Diweddariad gan yr Aelod Lleol / <i>Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies –</i> Dim i’w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyng Davies edrych i mewn i ffi cais cynllunio pan yn yr ardal gadwraeth ac i gysylltu â Chanolfan Dreftadaeth Tregaron i drafod ymhellach. <i>The Chair asked Cllr Davies to investigate the fee for planning application when in the conservation area and to contact Tregaron Heritage Centre to discuss further.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Cyng/Cllr Ifan Davies</p>
9.	<p><b>CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS</b></p> <p>a) <u>Balans y Banc / Bank Balance –</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current – £4,664.96</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve – £14,101.31</li> <li>• Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current (Cadeirydd/Chairman) – £1,925.26</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve (Gratuity) – £798.12</li> </ul> <p>b) <u>Taliadau mis Ebrill/ April payments –</u></p>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i> £303.70</li> <li>• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i> £336.00</li> <li>• HMRC £159.80</li> <li>• CCF £5.00</li> <li>• Rh.Hughes – ad-daliad golau nadolig ayyb / <i>reimbursement Christmas lights etc</i> £90.54</li> </ul> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Dewi Evans Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Arwel Jones</p> <p>c) <i>Praesept 2025-26 Precept –</i> Bydd £10,000 yn cael ei dalu ar 30/04/25, 31/07/25 &amp; 31/10/25 <i>£10,000 will be paid on 30/04/25, 31/07/25 &amp; 31/10/25</i></p>	Clerc / Clerk
10.	<p><b>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p> <p>Mae angen gwneud y canlynol -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Stryd y Capel, Heol Pontrhydefendigaid.</li> <li>• Glanhau strydoedd eraill yn eu tro.</li> </ul> <p><i>The following needs to be done –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydefendigaid Road.</i></li> <li>• <i>Other streets to be cleaned in rotation.</i></li> </ul>	Clerc / Clerk
11.	<p><b>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS</b> <u><i>Is-bwyllgor Parc a Blodau / Park &amp; Flowers Sub Committee</i></u></p> <p>a. <i>Parc / Park</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwiriadau Iechyd a Diogelwch y Parc i ddechrau yn wythnosol - Cyng. Rhian Hughes i gynnal y gwiriadau yn Ebrill/Mai. Diolchwyd i Cyng Rhian Jones am wneud mis diwethaf. <i>Weekly Health &amp; Safety checks of the Park to start – Cllr. Rhian Hughes to carry out the checks for April/May. Thanks was extended to Cllr Rhian Jones for doing last month.</i></li> </ul>	Cyng / <i>Cllr</i> Rhian Hughes
12.	<p><b>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS</b> <b>Rhif y Cais / Application:</b> A250103 <b>Ymgeisydd / Applicant:</b> Gayle Jeffery, Tregaron Heritage Centre <b>Safle / Site:</b> Tregaron Heritage Centre, Dewi Road, Tregaron, SY23 6JW <b>Y Bwriad / Intention:</b> Angen Caniatâd Cynllunio ar gyfer gosod ffenestri pren yn lle'r rhai presennol sy'n pydru yn yr Ardal Gadwraeth <i>Planning Consent required for replacement of existing decaying timber windows within Conservation Area</i></p> <p>Dim gwrthwynebiad / <i>No objection</i></p>	Clerc / Clerk
13.	<p><b>PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS</b> Prif flaenoriaethau'r Cyngor Tref yw / <i>The Town Council's main priorities are -</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i></li> <li>2) Cae pob tywydd &amp; Trac Rhedeg / <i>All weather pitch &amp; Running Track</i></li> <li>3) Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i></li> </ol>	

4) Prosiect Peilot Cau Sgwâr / *Square Closure Pilot project*

Prif flaenoriaeth y Cyngor Tref am 2024/2025 yw prosiect Llwybr Ystwyth. Cyng Arwel Jones a Dewi Evans i symud y prosiect ymlaen ac i hysbysu'r Cyngor Tref am unrhyw ddatblygiadau.

*The Town Council's main priority for 2024/2025 is the Ystwyth Trail project. Cllrs. Arwel Jones & Dewi Evans to move the project forward and to keep the Town Council informed of any developments.*

Clerc wedi drafftio Cynllun Prosiectau'r Dyfodol – Cynghorwyr i gymryd cyfrifoldeb am un prosiect ac arwain –

*Clerk has drafted a Future Projects Plan – Councillors to take responsibility for one project and lead –*

	Prosiect / Project	Pwy / Who	Diweddariad / Update
1.	Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones, & Dewi Evans	Ar waith <i>Ongoing</i>
2.	Gwefan i'r dref a'r Bwrdd Digidol / <i>Town Website &amp; Digital Board</i>	Cyng/Cllr Meirian Morgan & Arwel Jones Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
3.	Ffynnon Garon	Cyng/Cllr Rhian Jones & D. Roberts	Ar waith <i>Ongoing</i>
4.	Llyfryn Llwybrau Tregaron / <i>Tregaron Trails booklet</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
5.	Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i>	Cyng/Cllr Rhian Hughes & Arwel Jones	Aros am y brydles gan CSC Waiting for the lease from CCC  Ffes 2 Ar waith – yn y gwanwyn Phase 2 Ongoing – in the spring

1. Llwybr Ystwyth / *Ystwyth Trail*

- Mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor Tref ac mae angen symud ymlaen. Byddai o fudd mawr i'r dref pe gallai'r prosiect hwn symud ymlaen. Nid yw CSC yn gwneud pryniannau gorfodol. Cyng Arwel Jones a Dewi Evans wedi cwrdd â CNC a CSC i drafod ymhellach. Mae'r ddau asiantaeth yn gefnogol ond bydd yn cymryd amser i'w symud ymlaen. Cyfarfod wedi ei gynnal gyda CSC – dim datblygiadau newydd ar hyn o bryd o ran symud ymlaen ond maent yn dal yn awyddus i'r prosiect ddatblygu.

*This needs to be a priority for the Town Council and we need to move it forward. It would be of great benefit to the town if this project could move forward. CCC don't do compulsory purchases. Cllr Arwel Jones and Dewi Evans have met with NRW to discuss further and CCC. Both agencies on board but it will take time to move it forward.*

*Meeting has taken place with CCC – no new developments currently with regards to progress but they are still keen to move forward with the project*

Cyng/Cllr  
Arwel  
Jones

	<p>3. <b>Gardd Gymunedol / Community Garden</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyng Catherine Hughes yn cwrdd ag A.Polkey ar 16/04/2025 i drafod datblygu'r ardd dros y misoedd nesaf. <i>Cllr Catherine Hughes is meeting A.Polkey on 16/04/2025 to discuss developing the garden over the coming months.</i></li> </ul>	Cyng/Cllr Catherine Hughes
14.	<p><b>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES</b></p> <p>Ebyst wrth Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. <i>Emails from One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p>	
15.	<p><b>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</b></p> <p>15.1 – Tesco Cryfach yn Cychwyn - Gogledd/Canolbarth Cymru <i>Tesco Stronger Starts - North/Mid Wales</i></p> <p>15.2 – Trosglwyddo swyddogaethau o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru <i>Transfer of functions from the Independent Remuneration Panel for Wales to Democracy and Boundary Commission Cymru</i></p> <p>15.3 – Cymorth ariannol / <i>Financial Assistance</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Elusen Profedigaeth Plant Sandy Bear / <i>Sandy Bear Children's Bereavement Charity</i></li> <li>- Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen / <i>Llangollen International Musical Eisteddfod</i></li> </ul>	
16.	<p><b>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</b></p> <p>16.1 – Rebecca Jones, Swyddog Diogelu Rhag Twyll/Fraud Safeguarding Officer - Tim Troseddau Economaidd – penderfynwyd gofyn a fyddent yn fodlon cynnal sesiwn gyhoeddus i drafod. <i>Economic Crime Team Heddlu Dyfed Powys / Dyfed Powys Police – it was decided to ask if they would be willing to hold a public session to discuss.</i></p> <p>16.2 – Croeso i Gerddwyr – Clwb Cerdded Tregaron Mae llythyr wedi dod i law mewn ymateb i lythyr y Cyngor Tref ynglŷn ag atal talu aelodaeth flynyddol Croeso i Gerddwyr oherwydd pwysau cyllidebol. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd cynnig iddynt wneud cais trwy gynllun Cymorth Ariannol y Cyngor Tref yn y gwanwyn i dalu'r ffi.</p> <p><i>Walkers are Welcome –Tregaron Walking Club</i> <i>A letter has been received in response to the Town Council's letter regarding stopping paying the Walkers are Welcome annual membership due to budget pressures. The matter was discussed, and it was decided to inform them to apply via the Town Council Financial Assistance scheme in the spring from to cover the fee.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Sian Jones Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Arwel Jones</p>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p>

	<p>16.3 – Newidiadau arfaethedig yn Ysbyty Bronglais – cefnogwch yr ymgyrch – Eboost 01/04/25 <i>Proposed changes at Bronglais Hospital – support the campaign – Email 01/04/25</i> Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Gwion James Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhian Jones</p> <p>16.4 – Arolwg Prosiect Bro yn Nhregaron – maent am ddod i siarad a’r Cyngor am y prosiect. Clerc i gysylltu â cynnig iddynt ddod i gyfarfod mis Mehefin am 7pm. <i>Project Bro survey in Tregaron – they want to come and speak to the Council about the project. Clerk to contact them to offer to come to a meeting in June at 7pm.</i></p> <p>16.5 – Symud Pot Blodau Stryd yr Orsaf – Cyng.Rhian Jones i drefny gyda E.Evans <i>Moving the Street Flower Pot of the Station – Councillor Rhian Jones to arrange with E. Evans.</i></p> <p>16.7 – Cyng / Cllr Gwion James Awgrymir glanhau'r sgwâr ar ôl Tregaroc gan y bydd yr ardal ar gau. Cyng Gwion James i gysylltu â TTS. <i>Suggested to clean the square after Tregaroc as the area will be closed off. Cllr Gwion James to contact TTS.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Gwion James Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhian Hughes</p> <p>16.8 – Cyng / Cllr Dewi Evans Hysbysodd yr aelodau o'i fwriad i ymddiswyddo ar unwaith fel Cynghorydd Tref oherwydd ei fod yn symud allan i'r ward. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddo ef a'r teulu. <i>He informed members of his intention to resign with immediate effect as a Town Councillor as he was moving out of the ward. The Chair thanked him for his work over the years and wished him and the family well.</i></p> <p>16.9 – Cyng / Cllr Rhian Jones Baneri - a ellir eu rhoi i fyny cyn Rasys Tregaron &amp; Tregaroc - Cyng Dafydd Richards i drefnu. Mae Tregaroc yn gwneud cais am grant tuag at y digwyddiad ac yn gofyn am lythyr o gefnogaeth - pawb yn gytûn. <i>Bunting - can they be put up before Tregaron Races &amp; Tregaroc - Cllr Dafydd Richards to arrange.</i> <i>Tregaroc are applying for a grant towards the event and are asking for a letter of support - all in agreement.</i></p> <p>16.10 – Cyng / Cllr Catherine Hughes</p>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Cyng / Cllr Rhian Jones</p> <p>Cyng / Cllr Gwion James</p> <p>Cyng / Cllr Dafydd Richards</p> <p>Clerc / Clerk</p>
--	---	---

	<p>Mae'r draeniau o amgylch y dref i gyd wedi'u blocio. Clerc i adrodd i CLIC.  Nid yw arwydd 'Tregaron' ar ffordd Abergwesyn wedi ei newid - Clerc i gysylltu â CSC.  <i>The drains around town are all blocked. Clerk to report to CLIC.</i>  <i>The 'Tregaron' sign on Abergwesyn road has not been replaced - Clerk to contact CCC.</i></p> <p>16.11 –  Mae'r Cynghorydd Owain Pugh wedi cael cais i osod mainc allan ym Mhont Einon. Pawb yn gytûn i un o'r feinciau yn y storfa gael ei gosod yno.  <i>Cllr Owain Pugh has had a request for a bench to be put out at Pont Einon. All in agreement for one of the benches in storage to be put there.</i></p>	<p>Clerc /  Clerk</p>
17.	Terfynwyd y cyfarfod / <i>Meeting was closed</i>	